**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**RHEOLIADAU IECHYD ANIFEILIAID, RHYWOGAETHAU ESTRON GORESGYNNOL, HAWLIAU BRIDWYR PLANHIGION A HADAU (DIWYGIO ETC.) (YMADAEL Â'R UE) 2019**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod yn rhaid i Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei osod ac i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") os yw un o Offerynnau Statudol (OS) y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Cafodd Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Rhywogaethau Estron Goresgynnol, Hawliau Bridwyr Planhigion a Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") eu gosod gerbron Dau Dŷ'r Senedd ar 1 Gorffennaf 2019. Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma:

https://beta.parliament.uk/work-packages/BhGFl9yi

**Crynodeb o'r Offeryn Statudol a'i nod**

3. Mae angen y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau er mwyn sicrhau bod swyddogaethau Rhywogaethau Estron Goresgynnol yn gweithio'n gywir ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

4. Bydd y darpariaethau ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol yn y Rheoliadau yn gwneud sawl diwygiad i Orchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019 ("Gorchymyn 2019") a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981"). Bydd y cywiriadau hyn yn sicrhau bod y darpariaethau trwyddedu a gorfodi sy'n ofynnol dan Reoliad (UE) Rhif 1143/2014 yn gweithredu fel y bwriadwyd ar ôl ymadael â'r UE. Mae'r offeryn hefyd yn diwygio erthygl 20 o Orchymyn 2019 er mwyn cywiro gwall bach a nodwyd yn y darpariaethau sy'n pennu lefel y cosbau y gellir eu gosod ar gyfer euogfarnau troseddol am drosedd dan Orchymyn 2019.

5. Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro'r croesgyfeiriadau at "list of species of Union concern" ac "Union List" yn Neddf 1981 i sicrhau eu bod yn gyson â Rheoliad (UE) Rhif 1143/2014 (fel y'i diwygiwyd) a Gorchymyn 2019.

**Darpariaeth berthnasol sydd i'w gwneud gan yr OS**

6. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Ddeddf 1981 gan y Rheoliadau fel a ganlyn:

The Wildlife and Countryside Act 1981
Regulations 6—

(1) The Wildlife and Countryside Act 1981(**a**) is amended as follows.
(2) In section 14(4ZA)(**b**), for the words from “the list” to “spread of invasive alien species” substitute “the list of species in the Annex to Commission Implementing Regulation (EU) 2016/1141 adopting a list of invasive alien species of Union concern pursuant to Regulation (EU) No. 1143/2014 of the European Parliament and of the Council”.
(3) In Schedule 9A(**c**)—
(a) in paragraph 1(2)(a)(**d**) for “Union list” substitute “list of species of special concern”;
(b) for paragraph 2(6) substitute—
(6) “The list of species of special concern” means the list of species in the Annex to Commission Implementing Regulation (EU) 2016/1141 adopting a list of invasive alien species of Union concern pursuant to Regulation (EU) No 1143/2014 of the European Parliament and of the Council, as amended from time to time.

7. Mae'r newidiadau a bennir ym mharagraffau 4 a 5 yn ymwneud â phwnc sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac a allai fod yn destun Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol.

8. Mae Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn galluogi'r Cynulliad i ddeddfu ar unrhyw bynciau ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cadw'n ôl yn benodol ar gyfer Senedd y DU yn Atodlen 7A i'r Ddeddf. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r amgylchedd.

**Pam mae'n briodol i'r OS wneud y ddarpariaeth hon**

9. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi sy'n gysylltiedig â'r cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr i gywiro'r cyfeiriad dan sylw yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i'r OS hwn yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws Cymru a Lloegr, sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
4 Gorffennaf 2019

**a** 1981 p.69
**b** Diwygiwyd adran 14 o'r Ddeddf gan adran 102 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (p.16) a Rhan 4 o Atodlen 16 iddi, ac adran 23 a 25 o Ddeddf Seilwaith 2015 (p.7) ac OS 2019/527.
**c** Mewnosodwyd Atodlen A gan adran 23(30) o Ddeddf Seilwaith 2015 (p.7) ac fe'i diwygiwyd gan OS 2019/527.
**d** Mewnosodwyd Atodlen A gan adran 23(30) o Ddeddf Seilwaith 2015 (p.7) ac fe'i diwygiwyd gan OS 2019/527.